

Arolygiad Dilynol (Dirybudd)

Ward Sunderland, Ysbyty De Sir
Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 13, 14 Mai 2019

Dyddiad cyhoeddi: 15 Awst 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	20
4.	Beth nesaf?	23
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol	24
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol dirybudd o Ward Sunderland, Ysbyty De Sir Benfro sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 13 a 14 Mai 2019. Yn ystod yr arolygiad, edrychodd AGIC ar y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad arolygu blaenorol. Amlinellir y rhain ar ddechrau pob adran.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, dau adolygwr cymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu gofal a gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Er bod y ward yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan, mae'n rhaid i'r bwrdd gymryd camau i fynd i'r afael â rhai materion ynghylch glendid rhai offer ar y ward. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd hefyd gymryd camau i fynd i'r afael â rhai materion amgylcheddol er mwyn hybu amgylchedd diogel.

Gwnaethom nodi bod angen gwelliant brys ynghylch agweddau ar reoli meddyginiaethau, atal a rheoli heintiau, ac asesiadau VTE yn unol â chanllawiau NICE. Darparodd y bwrdd iechyd gynllun gwella brys manwl o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd
- Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion
- Roedd yr ystafell atgofion wedi cael ei chwblhau ac yn cael ei defnyddio'n rheolaidd i wella'r gofal a ddarperir i gleifion â dementia.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Agweddau ar reoli meddyginiaethau
- Nid oedd yr arwyddion ar y ward bob amser yn adlewyrchu defnydd cywir yr ystafelloedd
- Asesiadau VTE yn unol â chanllawiau NICE
- Recriwtio ar gyfer swydd wag rheolwr y ward

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Arolygodd AGIC Ysbyty De Sir Benfro ddiwethaf ar 23 a 24 Awst 2017.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Lefel yr annibendod ar y wardiau er mwyn hybu diogelwch a glanhau effeithiol
- Agweddau ar reoli meddyginiaethau, gan gynnwys storio a rhoi meddyginiaethau'n ddiogel
- Y wybodaeth a roddir i gleifion gan gynnwys y ffordd y gallant roi adborth a gwneud cwyn
- Agweddau ar y broses cynllunio gofal a'r system ar gyfer cynlluniau gofal ysgrifenedig

Diben yr arolygiad hwn oedd gwneud gwaith dilynol ar y gwelliannau uchod a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Rhoddodd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw adborth cadarnhaol am y driniaeth roeddent yn ei chael gan y staff. Gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig tuag at y cleifion ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd prosesau ar waith er mwyn i gleifion ac ymwelwyr roi adborth. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i hybu hyn, a hefyd i lunio adroddiad am yr hyn y mae wedi'i wneud i wella yn sgil adborth.

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Trefniadau i hybu'r defnydd o ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â gofal ymataliaeth
- Trefniadau addas i hybu ymateb amserol i geisiadau cleifion am gymorth tra'u bod ar y ward
- Trefniadau i hybu ymwybyddiaeth ymhlith y cleifion a'u teuluoedd o'r ffordd y gallant roi adborth ar eu profiad a gwneud cwyn
- Trefniadau i ddarparu adborth perthnasol gan gleifion i staff y ward er mwyn hybu dysgu a gwneud trefniadau fel y bo'n briodol.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 3 Gorffennaf 2017:

- Bydd y tîm cynghori ar ymataliaeth yn datblygu modiwl hyfforddiant i gefnogi'r defnydd o'r asesiad o ymataliaeth ar y ward. Caiff amserlen o ddyddiadau hyfforddi ei datblygu gan y tîm cynghori ar ymataliaeth. Caiff effaith yr hyfforddiant ei monitro drwy archwiliad. Bydd hyn yn cefnogi'r defnydd o ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â gofal cleifion unwaith y bydd problem ymataliaeth wedi cael ei nodi.
- Cynhelir adolygiad o amseroedd ymateb i alwadau presennol. Cynhelir adolygiad o'r trefniadau clychau galw presennol sydd ar waith ar gyfer cleifion. Adolygu'r dyraniad tasgau presennol rhwng gweithwyr cymorth gofal iechyd a staff cyfleusterau gwesty. Nodi unrhyw gamau gweithredu wrth adolygu tasgau a threfnu cyfarfod â rheolwyr ym maes cyfleusterau gwesty i ystyried arferion gwaith amgen
- Gosod blwch awgrymiadau cleifion ar y ward gyda chardiau 'rydym am wybod beth yw eich barn' er mwyn i gleifion roi adborth ar eu profiad
- Rhoi adborth i'r staff mewn cyfarfodydd tîm misol. Cyflwyno adborth allweddol o gyfarfodydd staff AGIC. Rhoi hysbysfyrddau staff ar waith i ddangos niferoedd y sylwadau cadarnhaol a chwynion a gafwyd. Datblygu hysbysfyrddau ar y ward i hybu'r ffordd y gall cleifion a pherthnasau roi adborth.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwelsom dystiolaeth o lefel dda o ofal ymataliaeth yn y cynlluniau gofal a gwelsom hyn ar waith gyda'r staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd sensitif fel nad oeddent yn teimlo embaras.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i'r cleifion.

Roedd gwybodaeth am broses gwyno ¹Gweithio i Wella GIG Cymru wedi'i harddangos ym mhob rhan o'r ward. Roedd adborth yn cael ei annog gan gleifion, ac roedd blwch awgrymiadau wrth fynedfa'r ward.

¹ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

Canfyddiadau ychwanegol

Gofal ag urddas

Gwelsom y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y cleifion yn canmol y staff yn fawr, a gwnaethant ddweud wrthym fod y staff wedi eu trin â pharch a charedigrwydd.

Gwelsom ystafelloedd ar y ward gydag arwyddion anghywir nad oeddent yn adlewyrchu swyddogaeth yr ystafell benodol honno. Er enghraifft, roedd yr ystafell fwyta yn cael ei defnyddio fel ystafell storio fawr, ac roedd yr ystafell dawel yn cael ei defnyddio fel y swyddfa therapi galwedigaethol.

Roedd y ward yn darparu gofal i ddynion a menywod. Roedd ugain o ystafelloedd sengl a phum cilfan o bedwar gwely. Roedd yr ysbyty yn darparu gofal i ddynion a menywod. Roedd y cilfannau wedi'u dynodi'n rhai i ddynion neu fenywod yn dibynnu ar y gofynion. Roedd llenni urddas o amgylch y gwelyau a gellid cau drysau'r ystafelloedd gwely unigol. Roedd y trefniadau hyn yn helpu i hybu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom nad oedd y toiledau cymunedol i gyd yn rhai un rhyw, ac nad oedd arwyddion 'prysur' arnynt. Hefyd, nid oedd yr arwyddion ar gyfer y toiledau yn ddwyieithog nac yn ystyriol o ddementia.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gywiro'r arwyddion ar y ward fel eu bod yn adlewyrchu defnydd gwirioneddol yr ystafell.

Gofal amserol

Gwelsom fod y tîm o staff yn brysur iawn, gan dreulio'r mwyafrif helaeth o'u hamser allan ar y ward yn trin ac yn ymateb i gleifion.

Dywedodd rhai o'r cleifion y cawsom sgwrs â nhw fod oedi cyn i'r staff ymateb i glychau galw. Ganol y bore ar ddau ddiwrnod yr arolygiad gwelsom nad oedd y system clychau galw wedi cael ei newid o fodd nos i fodd dydd. Roedd hyn yn golygu na ellid clywed clychau galw'r cleifion dros sŵn amgylchol y ward. Pan newidiwyd y system i'r modd dydd, gellid clywed y clychau'n glir iawn ac roedd pa mor aml roedd y system yn canu yn dangos lefel y galw ar y staff wrth ymateb i'r rhain.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses gadarn ar waith ar gyfer y system clychau galw ar y ward i gynnal diogelwch y cleifion.

Gofal unigol

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd cleifion, eu teuluoedd a'u gofalmwyr yn cael cyfleoedd i roi adborth ar eu profiad. Roedd gwybodaeth ar gael ym mhob rhan o'r ward, gan gynnwys posteri Gweithio i Wella GIG Cymru a manylion cyswllt AGIC.

Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a chwynion. Roedd staff ar bob lefel yn dangos dealltwriaeth o'r broses hon.

Gwelsom flwch post wrth fynedfa'r ward gyda chardiau sylwadau. Gallai cleifion ac ymwelwyr gwblhau'r rhain, a'u gadael yn y blwch i roi adborth i'r ysbyty.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i harddangos ar y ward i ddangos y dysgu na'r camau a gymerwyd o ganlyniad i adborth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i rannu adborth â chleifion ac ymwelwyr ar y ward.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal da gan y staff ar y ward, a bod y cleifion yn cael eu hasesu'n briodol i nodi eu hanghenion gofal.

Gwnaethom nodi bod angen gwelliannau brys mewn perthynas ag agweddau ar atal a rheoli heintiau, storio sylweddau niweidiol a rheoli meddyginiaethau. Darparodd y bwrdd iechyd gynllun gwella brys manwl gyda therfynau amser y cytunwyd arnynt.

Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Gwneud trefniadau i fynd i'r afael â'r annibendod ar y ward er mwyn hybu amgylchedd diogel i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Sicrhau y caiff deunyddiau glanhau eu storio'n ddiogel. Newid neu atgyweirio (fel y bo'n briodol) y bleinds ar y ffenestri er mwyn hybu cysur a phreifatrwydd y cleifion
- Gwneud trefniadau i sicrhau bod y cynlluniau gofal ysgrifenedig ar gyfer atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd yn ddigon manwl
- Gwneud trefniadau i hybu prosesau atal a rheoli heintiau yn effeithiol ar y ward. Rhaid ystyried mentrau cenedlaethol perthnasol yn hyn o beth
- Gwneud trefniadau i sicrhau bod therapi ocsigen yn cael ei ragnodi ar y siartiau cyffuriau a bod asesiadau risg thromboemboledd yn cael eu cwblhau fel y bo'n briodol
- Rhoi system addas ar waith ar gyfer gwirio bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr yn rheolaidd.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Datblygu rota archwilio'r amgylchedd er mwyn mynd i'r afael ag ystafelloedd storio, rheoli stoc a storio cyfarpar. Rhoi safonau ar waith ar gyfer glendid ystafelloedd mewn ystafelloedd cleifion, toiledau, ystafelloedd storio ac ardaloedd perthnasol eraill. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth ddyddiol. Sicrhau bod storfeydd glanhau'r tîm cyfleusterau gwesty wedi'u cloi'n ddiogel er mwyn sicrhau y caiff deunyddiau glanhau eu storio'n ddiogel
- Atgyfnerthu pwysigrwydd cynlluniau gofal cleifion unigoledig ymhlith y staff, ynghyd â pherthnasedd gofal unigol wrth ragnodi gofal nyrsio. Caiff yr archwiliad o ddogfennaeth ei wella i gynnwys gwaith cynllunio gofal unigoledig ar gyfer asesu ac adolygu clwyfau
- Rhoi system ar gyfer labelu cyfarpar a lanhawyd ar waith ar y ward. Tacluso'r ystafell olchi a datblygu ardaloedd glân / brwnt dynodedig
- Darparu hyfforddiant ar asesiadau Thromboembolws Gwythiennol ²(VTE) i staff nyrsio a staff meddygol. Cynnwys archwiliad o wiriadau tymheredd yn hapwiriadau amgylcheddol y ward.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Roedd y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r annibendod ar y ward i raddau. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer storio yn llawn iawn ac yn anhrefnus. Nid oedd deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel. Ar ddau ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom nad oedd y cwpwrdd i storio sylweddau peryglus dan glo a'i fod ar agor pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

² <https://www.nhs.uk/Tools/Pages/VTE-self-assessment.aspx>

Nid oedd hyn yn cydymffurfio â Rheoliad Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)³ 2002.

Gwelsom fod nodiadau'r cleifion yn cynnwys manylion am yr adnodd a oedd yn cael ei ddefnyddio i asesu'r risg o friwiau pwyso.

Ni allem fod yn sicr bod y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau ar y ward yn effeithiol. Gwelsom gomodau mewn cyflwr gwael gyda staeniau wrin. Yn ogystal, gwelsom fod trefniadau ar waith i ddilyn canllawiau'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) ar systemau glanhau â chodau lliw⁴. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y systemau'n cael ei dilyn. Amlinellir y materion hyn ymhellach o dan y pennawd Atal a Rheoli Heintiau.

Gwelsom fod dau glaf yn yr ysbyty yn cael ocsigen. Rhagnodwyd ocsigen i un claf ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, er ei fod wedi cael ei roi am sawl wythnos cyn hynny. Rhagnodwyd ocsigen i'r ail glaf ond nid oedd dyddiad wedi'i ddogfennu. Hefyd, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod asesiadau VTE wedi cael eu cwblhau yn unol â chanllawiau ⁵NICE.

Canfyddiadau ychwanegol

Gofal diogel

NODER: MATERION SICRWYDD UNIONGYRCHOL

Ymdriniwyd â'n pryderon o ran glendid comodau, cydymffurfiaeth â'r NPSA, rhagnodi ocsigen i gleifion, gwiriadau tymheredd yr oergell meddyginiaethau a chwblhau asesiadau VTE yn unol â chanllawiau NICE o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at yr

³ <http://www.hse.gov.uk/coshh/>

⁴ <http://www.wales.nhs.uk/news/5981>

⁵ <https://www.nice.org.uk/>

ysbyty yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Fel yn yr arolygiad blaenorol, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn hybu amgylchedd diogel i'r staff a'r cleifion.

Ar y cyfan, roedd y ward yn ymddangos fel petai'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda gydag ôl traul sy'n ddisgwyliedig ar ward brysur. Gwelsom fod dwy gadair a bwrdd wedi'u gosod ar y landin hanner ffordd i lawr y grisiau yng nghefn y ward a oedd wedi'u nodi fel un o'r allanfeydd tân. Gallai'r rhain achosi rhwystr, a gallent atal cleifion a staff rhag gadael yr adeilad mewn argyfwng.

Unwaith eto, roedd y ward yn anniben gyda throlïau a chyfarpar yn ystod cyfnodau prysur. Wrth gyrraedd y ward, gwelsom fod trolïau nodiadau cleifion, trolïau meddyginiaethau a throlïau bwyd cleifion ar y ward. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n eithaf anodd symud o gwmpas, gyda pheryglon baglu sylweddol i'r staff a'r cleifion.

Roedd ystafelloedd ar y ward yn cael eu defnyddio ar gyfer storio. Gwelsom fod y rhain yn anniben ac yn anhrefnus. Roedd hefyd llawer o eitemau o gyfarpar wedi'u labelu fel 'ddim yn gweithio' ac yn 'aros i gael ei drwsio neu ei newid'. Roedd un ystafell storio yn cynnwys nifer fawr o fatresi lleddfu pwysau yr oedd angen eu newid, a oedd wedi bod yno ers peth amser.

Fel y nodwyd yn gynharach, gwelsom fod y cwpwrdd storio COSHH ar agor a heb ei gloi ar ddau ddiwrnod yr arolygiad er i ni roi gwybod i uwch-aelodau o'r staff am hyn ar y diwrnod cyntaf. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd materion eraill yr ymdriniwyd â nhw o dan ein gweithdrefnau sicrwydd uniongyrchol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod y grisiau yn glir o unrhyw rwystrau bob amser
- Bod cyn lleied o annibendod â phosibl ar y ward, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur er mwyn hybu amgylchedd diogel i'r cleifion, y staff

ac ymwelwyr

- Bod yr holl ddeunyddiau peryglus yn cael eu storio'n ddiogel
- Bod eitemau newydd yn cael eu prynu yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi ac sy'n aros i gael eu trwsio er mwyn sicrhau bod digon o gyfarpar ar gael i ddarparu parhad gofal i'r cleifion.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Gwnaethom adolygu nifer o nodiadau cleifion. Gwelsom fod y staff yn defnyddio adnodd priodol i asesu'r risg o friwiau pwyso. Roedd amllder gwiriadau cyflwr y croen a symud cleifion wedi'i ddogfennu'n glir yn y cynlluniau gofal. Fodd bynnag, gwelsom rai bylchau lle nad oedd cofnod i ddangos nad oedd y staff wedi newid safle claf am chwe awr, pan oedd y cynllun gofal yn nodi'n glir y dylid newid ei safle bob dwy i bedair awr.

Roedd mapiau corff yn cael eu defnyddio i gofnodi a oedd niwed oherwydd briwiau pwyso i'w weld, gan gynnwys maint y clwyf. Roedd hyn hefyd yn cael ei ddefnyddio i fonitro unrhyw newidiadau i'r clwyfau, os o gwbl.

Roedd nyrs hyfywedd meinwe ar gael yn y bwrdd iechyd ar gyfer cyngor ac arweiniad petai eu hangen ar staff ar y ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cydymffurfio â chynlluniau gofal cleifion unigol, yn enwedig mewn perthynas â newid safle cleifion, a bod hyn yn cael ei gofnodi'n briodol.

Atal a rheoli heintiau

Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gwelsom gomodau'n cael eu defnyddio ar y ward a oedd mewn cyflwr gwael. Roedd tâp ar y breichiau yn syrthio i ffwrdd, roedd rhwd o amgylch y colfachau o dan y sedd ynghyd â chraciau a thyllau yn y strwythur. Roedd yr un comodau wedi'u staenio gyda'r hyn a oedd edrych fel wrin wedi sychu. Tynnwyd sylw uwch-aelodau o'r staff at hyn a gwnaethant gytuno i dynnu'r comodau oddi ar y ward. Ar yr ail ddiwrnod roedd yr un comodau yn ôl ar y ward, gyda staeniau o hyd a heb eu trwsio ers y diwrnod blaenorol. Mae hyn yn creu risg sylweddol i ddiogelwch y cleifion mewn perthynas â'r risg uchel o groes-heintio.

Gwelsom nad oedd canllawiau'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) yn cael eu dilyn mewn perthynas â defnyddio cyfarpar glanhau â chodau lliw i atal croes-heintio. Yn yr ystafell olchi gwelsom fwcad melyn (clinigol) yn cynnwys pen mop coch (ystafell olchi, toiled, ardaloedd ystafell ymolchi) a dolen mop glas (ardaloedd cyffredinol megis wardiau) i gyd yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd. Ni allwn fod yn sicr na fydd glanhau ardaloedd megis yr ystafell olchi a'r toiled yn trosglwyddo i ardaloedd clinigol gyda'r un eitemau o gyfarpar glanhau.

Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol, a cheir manylion am hyn yn atodiad B.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom archwilio cofnodion dau glaf a oedd yn cael ocsigen fel rhan o'u triniaeth feddygol. Roedd gan un claf bresgripsiwn heb ddyddiad. Roedd gan y claf arall bresgripsiwn dyddiedig 13 Mai 2019. Fodd bynnag, roedd y claf hwn wedi bod yn cael ocsigen ers 1 Mai 2019, a dangosodd siartiau cyffuriau blaenorol nad oedd hyn wedi'i ragnodi.

Gwelsom fod nifer o ddyddiau lle nad oedd gwiriadau tymheredd wedi cael eu cofnodi ar gyfer yr oergell meddyginiaethau. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yr oergell wedi cael ei defnyddio nifer o weithiau er mwyn rhoi meddyginiaeth a oedd yn cael ei storio ynddi. Wrth drafod ein canfyddiadau â'r staff, ni allem fod yn sicr eu bod yn deall y protocolau cywir ac y byddent yn eu rhoi ar waith petai'r tymhereddau y tu hwnt i'r ffiniau derbyniol.

Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol, a cheir manylion am hyn yn atodiad B.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Tynnodd yr adroddiad arolygu blaenorol sylw at y ffaith bod angen i staff fod yn ymwybodol o Safonau Iechyd a Gofal (2015) a'r mentrau arfer gorau sy'n berthnasol i'r gofal a ddarperir ar y ward. Gwelsom fod y staff yn gwybod llawer mwy am y safonau hyn ac yn eu deall yn well.

Roedd y nyrsys yn arwain asesiadau risg o safon dda mewn perthynas â chleifion unigol a'u hanghenion. Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn cael gofal da, ac roedd staff yn weladwy ar y ward yn gyson yn diwallu anghenion y cleifion.

Roedd gan y ward fyrddau Cipolwg ar Statws Cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am gleifion unigol ac roedd gwybodaeth bersonol wedi'i diogelu gan gynnal cyfrinachedd ac urddas. Fodd bynnag, gwelsom fod y byrddau yn anghyson ac nad oeddent bob amser yn gyfredol.

Gwnaethom archwilio nodiadau clinigol nifer o'r cleifion. Roedd rhai o gyflyrau'r cleifion yn cynyddu eu risg o ddatblygu Thrombosis (clot gwaed). Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod asesiadau VTE yn cael eu cynnal. Dangoswyd adnodd risg derbyniadau meddygol aciwt i ni a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr ysbyty. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod hwn yn cael ei ddefnyddio yn y cofnodion a welsom.

Gwelsom nad oes gan y Bwrdd Iechyd bolisi sy'n cwmpasu asesiadau VTE ar hyn o bryd, am fod y drafft yn disgwyl cymeradwyaeth derfynol.

Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol, a cheir manylion am hyn yn atodiad B.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod byrddau cipolwg ar statws cleifion yn cael eu cynnal a'u bod yn gyfredol, er mwyn sicrhau bod y staff yn hollol ymwybodol o statws claf.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o naw cofnod gofal. Roedd y cofnodion yn dangos bod cleifion wedi cael eu hasesu er mwyn nodi eu hanghenion gofal, a gwelsom fod cynlluniau gofal ysgrifenedig wedi cael eu datblygu er mwyn helpu i gyfarwyddo staff wrth roi gofal. Roedd y ddogfennaeth nyrsio o safon dda ac yn hawdd ei deall a'i dilyn. Fodd bynnag, roedd y nodiadau gan feddygon mewn ffeiliau yn aml yn annarllenadwy a oedd yn ei gwneud hi'n anodd deall yr hyn a oedd wedi cael ei ysgrifennu.

Gwelsom fod nodiadau'r tîm amlddisgyblaethol a nodiadau meddygol wedi'u ffeilio gyda'i gilydd, a oedd yn gwneud y ffeiliau'n fanwl iawn ond hefyd yn swmpus ac yn feichus. Roedd trolïau nodiadau yn cael eu cloi yn briodol gan gynnal cyfrinachedd manylion y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y nodiadau a wneir yng nghofnodion y cleifion yn ddarllenadwy a'u bod yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom strwythur rheoli gyda llinellau atebolrwydd clir, er bod swydd wag rheolwr y ward wedi cael effaith ar y gwaith o redeg y ward o ddydd i ddydd, a llwyth gwaith staff eraill y ward.

Roedd y staff yn rhoi llawer o sylw i'r cleifion ac yn treulio'r mwyafrif helaeth o'u hamser ar y ward yn diwallu anghenion y cleifion.

Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio ar gyfer swydd wag rheolwr y ward.

Gwelliannau angenrheidiol a nodwyd gennym

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Trefniadau i adolygu'r ffordd y mae'n ymdrin ag agweddau ar weithgarwch archwilio ar y ward er mwyn hybu diogelwch y cleifion a gwella'r gwasanaeth
- Trefniadau i adolygu goruchwyliaeth gan uwch-reolwyr a chefnogi tîm y ward i sicrhau bod materion o ran ansawdd a diogelwch yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw mewn modd effeithiol ac amserol
- Trefniadau addas i sicrhau bod lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn briodol, er mwyn hybu gofal amserol ac o ansawdd da i'r cleifion
- Trefniadau addas i gefnogi'r staff i gwblhau hyfforddiant gorfodol.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Mae cymorth gan uwch-reolwyr wedi cael ei roi ar waith i gefnogi rheolwr y ward a'r tîm nyrsio. Mae prif nyrs iau band 6 ychwanegol wedi cael ei recriwtio i'r ward. Mae gweithgarwch archwilio wedi cael ei gadarnhau ar y ward, gyda'r prif nyrsys yn arwain meysydd cyfrifoldeb. Caiff canlyniadau archwilio eu harddangos ar fyrddau staff er mwyn cynnwys ac ymgysylltu â'r gweithlu ynghylch perfformiad, safonau ac adborth
- Mae adolygiad llawn o'r staff nyrsio wedi cael ei gynnal. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cefnogi'r oriau nyrsio ychwanegol sy'n ofynnol i gefnogi lefelau staffio diogel ac mae'r cymysgedd sgiliau yn briodol er mwyn cefnogi gofal y cleifion. Mae oriau ychwanegol ar gyfer staff cymwys a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd. Mae gwaith recriwtio ar gyfer yr oriau ychwanegol hyn yn mynd rhagddo. Mae sesiynau hyfforddi gorfodol wedi cael eu trefnu gyda'r adran datblygu staff er mwyn helpu'r staff i gydymffurfio. Caiff hyn ei fonitro'n agos gan Reolwr y Ward.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Ar hyn o bryd nid oes gan y ward reolwr llawn amser. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i staff ar fandiau is ymgymryd ag ychydig o lwyth gwaith y swydd wag hon. Mae'r bwrdd iechyd wedi rheoli'r swydd wag hon yn y byrdymor drwy secondio rheolwr ward o ysbyty gerllaw. Fodd bynnag, mae'r nyrs hon yn dal i gyflawni dyletswyddau rheolwr ward yn ei swydd arferol. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn cael effaith negyddol ar y strwythur staffio presennol. Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio ar gyfer y swydd wag hon. Pan fydd y swydd wedi'i llenwi, dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym y bydd llwyth gwaith y bandiau is yn lleihau felly byddant ar gael i gyflawni eu cyfrifoldebau ar y ward.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi codi lefelau staffio gan gynnwys nyrsys cymwys a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Gwelsom fod y cymysgedd sgiliau ar y ward yn briodol o ran cefnogi gofal a diogelwch y cleifion. Roedd y rheolwr ardal a oedd yn uwch-nyrs gofrestredig yn gweithio ar y safle. Roedd hyn yn rhoi cymorth ychwanegol gan uwch-reolwr i staff y ward.

Gwelsom amrywiaeth o gofnodion archwilio a gedwir mewn ffeiliau ar y ward. Fodd bynnag, nid oedd y ffeiliau hyn yn gyfredol am ei bod yn rhan o rôl rheolwr ward llawn amser. Cawsom dystiolaeth bod yr archwiliadau wedi cael eu cynnal a bod copïau gwreiddiol y rhain yn cael eu cadw'n ganolog yng nghyfarwyddiaeth y bwrdd iechyd. Roedd pob archwiliad yn gyfredol.

Gwelsom dystiolaeth o gydymffurfiaeth lawer gwell â hyfforddiant gorfodol, gyda chanran uchel o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol o fewn yr amserlenni gofynnol.

Canfyddiadau ychwanegol

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Fel y nodwyd yn gynharach, gwelsom fod swydd rheolwr y ward yn wag. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio ar gyfer y swydd hon. Fel mesur interim, mae'r bwrdd iechyd wedi secondio rheolwr ward o ysbyty gerllaw i gyflenwi rhai dyletswyddau rheolwr y ward ar Ward Sunderland.

Roedd yn amlwg bod diffyg rheolwr ward llawn amser yn effeithio ar y gwaith o lywodraethu'r ward o ddydd i ddydd. Yn benodol, gwelsom fod y cofnodion archwilio a gedwir ar y safle yn anghyflawn ac yn hen. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod hyn yn rhan o ddyletswyddau rheolwr y ward a'i fod yn un o'r darnau o waith na ellid ei gwblhau gyda'r trefniadau presennol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cofnodion a gedwir ar y safle, yn benodol gweithgarwch archwilio, yn drylwyr ac yn gyfredol.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Fel y soniwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi cyflawni ei gynllun i gynyddu'r lefelau staffio gan gynnwys nyrsys cymwys a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Fodd bynnag, mae swydd rheolwr y ward bellach yn wag. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y bwrdd wrthi'n recriwtio ar gyfer y swydd hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud pob ymdrech i recriwtio ar gyfer swydd wag rheolwr y ward cyn gynted â phosibl.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn y byddwn yn canolbwyntio.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw faterion uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ward Sunderland, Ysbyty De Sir Benfro

Dyddiad arolygu: 13 a 14 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod yr holl gyfarpar, gan gynnwys comodau, a ddefnyddir ar y wardiau yn ddiogel ac yn cael eu cynnal i safon dderbyniol o ran cyflwr a glendid. - Rhoi ystyriaeth i'r canllawiau a gynigir gan yr Asiantaeth Diogelwch Cleifion Cenedlaethol wrth ddefnyddio cyfarpar glanhau ym mhob ardal glinigol ac anghlinigol	Atal a Rheoli Heintiau	Dylid cynnal adolygiad uniongyrchol o'r holl gyfarpar i gleifion gan gynnwys comodau.	Rheolwr Ardal ac Uwch-brif Nyrsys y Ward	Cwblhawyd
		Dylid tynnu'r holl gyfarpar sy'n anniogel neu nad ydynt wedi'u cynnal a'u cadw i safon dderbyniol oddi ar y ward ac archebu rhai newydd yn eu lle.	Rheolwr y Ganolfan Adnoddau / Rheolwr Ardal	Cwblhawyd
		Dylid rhoi proses ar gyfer monitro a chraffu ar gyfarpar yn barhaus ac amserlen ar gyfer prynu cyfarpar newydd ar waith.	Nyrs Ardal / Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Dylid sefydlu amserlenni glanhau dyddiol a rota ar gyfer yr holl gyfarpar i gleifion a chyfarpar clinigol.	Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd
		Dylid cael posteri glanhau comodau gan y tîm Atal a Rheoli Heintiau a'u dosbarthu ar y ward.	Prif Nyrs y Ward / Uwch-nyrs Atal a Rheoli Heintiau	Cwblhawyd
		Dylid cynnal hapwiriadau o lendid a gwaith atgyweirio bob mis gan ddechrau ym mis Mehefin 2019.	Prif Nyrs y Ward / Nyrs Ardal	30/06/19
		Dylid cloi cynhyrchion a chyfarpar glanhau y tîm Cyfleusterau Gwesty yn ddiogel er mwyn sicrhau y caiff deunyddiau glanhau eu storio'n ddiogel.	Arweinydd Cyfleusterau Gwesty	Cwblhawyd
		Dylai'r holl staff gael canllawiau ar y cod lliw cywir a'r defnydd cywir o'r holl gyfarpar glanhau.	Arweinydd Cyfleusterau Gwesty	Cwblhawyd
		Dylai'r tîm cyfleusterau gwesty sicrhau bod y posteri cywir gan yr Asiantaeth Diogelwch Cleifion Cenedlaethol yn cael eu	Arweinydd Cyfleusterau Gwesty	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		harddangos yn glir i'r staff eu gweld a bod safonau a chanllawiau cysylltiedig yn hygyrch i'r staff ar y ward. Dylai'r Tîm Uwch-Reolwyr ddechrau cynnal adolygiadau o'r ward bob deufis gyda chynrychiolaeth gan y Tîmau Ystadau, Cyfleusterau Gwesty ac Atal a Rheoli Heintiau o fis Gorffennaf 2019. Dylid rhannu Archwiliadau Atal a Rheoli Heintiau â'r Tîm Uwch-Reolwyr ar unwaith a dylid rhannu meysydd i'w gwella â staff y ward mewn cyfarfodydd tîm misol.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol Uwch-nyrs – Atal a Rheoli Heintiau	31/07/19 Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau'r canlynol: Bod yr holl feddyginiaethau, gan gynnwys ocsigen, yn cael eu rhagnodi'n briodol i gleifion.	Rheoli Meddyginiaethau	Dylid rhannu'r Polisi Rheoli Meddyginiaethau (268) â'r holl staff priodol. Dylid rhannu'r Polisi Rhagnodi Ocsigen â'r holl staff priodol. Dylid darparu canllawiau ar y defnydd cywir o Siart Meddyginiaeth Cymru Gyfan i'r staff meddygol sy'n	Pennaeth Nyrsio Cymunedol Pennaeth Nyrsio Cymunedol Pennaeth Nyrsio Cymunedol	Cwblhawyd Cwblhawyd Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gweithio ar y ward.		
		Dylid atgoffa meddygon teulu am bwysigrwydd sicrhau bod cofnodion meddygol yn ddarllenadwy ac yn cynnwys enw a rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol y meddyg.	Rheolwr Ardal	Cwblhawyd
		Dylid darparu stamp i'r staff meddygol, sy'n dangos eu henw a'u rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol, i'w ddefnyddio yn yr holl gofnodion meddygol a siartiau meddyginiaethau.	Rheolwr Ardal	30/06/19
		Dylid rhoi taflen llofnodwr i gadarnhau'r polisïau ar waith.	Nyrs Ardal	Wedi'i gwblhau
		Dylid sefydlu templed Archwiliad o Feddyginiaethau i fonitro ysgrifen ddarllenadwy, dyddiadau, amseroedd, asesiadau VTE a rhagnodi ocsigen ar y ward gyda chymorth gan y tîm Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau.	Nyrs Ardal / Uwch-nyrs Rheoli Meddyginiaethau	30/06/19
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er	Rheoli Meddyginiaethau	Dylid rhoi proses ar gyfer cynnal Gwiriadau dyddiol o Dymheredd yr	Pennaeth Nyrsio Cymunedol	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod gwiriadau tymheredd yr oergell meddyginiaethau yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n ddyddiol. Dylai'r staff hefyd fod yn hollol ymwybodol o'r camau priodol i'w cymryd os bydd y tymereddau hyn y tu allan i'r ystod dderbyniol. - Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN 015 / Gorffennaf 2015, Storio oergelloedd meddyginiaethau.		Oergell Meddyginiaethau ar waith ar y ward ar unwaith.		
		Dylid cynnwys archwiliad o wiriadau tymheredd yn hapwiriadau amgylcheddol y ward.	Nyrs Ardal	30/06/19
		Dylid adolygu'r canllawiau ar y camau priodol i'w cymryd os bydd y gwiriadau'n dangos bod y tymheredd y tu hwnt i'r ystod dderbyniol a'u cynnwys mewn fersiwn wedi'i diweddarau o'r Polisi Rheoli Meddyginiaethau a'u rhannu â'r staff.	Uwch-nyrs Rheoli Meddyginiaethau –	30/09/19
		Dylid hysbysu'r staff am y broses uwchgyfeirio ar gyfer rhoi gwybod i uwch-aelodau o'r staff os bydd y tymereddau y tu hwnt i ystodau arferol.	Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd
		Dylid arddangos Hysbysiadau Diogelwch Cleifion perthnasol mewn perthynas â Storio Meddyginiaethau: Oergelloedd a	Prif Nyrs y Ward / Prif Nyrsys y Ward Fferylliaeth	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Chanllawiau ar Storio a Chofnodi Tymereddau Oergell oedd yn glir ger oergelloedd meddyginiaethau.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod asesiadau VTE yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau NICE. - Dylid cadarnhau polisi'r bwrdd iechyd ar gyfer rheoli ac atal VTE a'i ddosbarthu i'r holl staff priodol.	Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Dylid darparu canllawiau ar y defnydd cywir o Siart Meddyginiaeth Cymru Gyfan, gan gynnwys rhagnodi ac asesu VTE, i'r staff meddygol sy'n gweithio ar y ward.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol	30/06/19
		Dylid cwblhau polisi VTE y Bwrdd Iechyd a'i ddosbarthu i'r holl staff priodol.	Uwch-nyrs Rheoli Meddyginiaethau –	30/09/19

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Mandy Rayani

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion

Dyddiad: 23 Mai 2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Sunderland, Ysbyty De Sir Benfro.

Dyddiad arolygu: 13 a 14 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gywiro'r arwyddion ar y ward fel eu bod yn adlewyrchu defnydd gwirioneddol yr ystafell.	4.1 Gofal ag Urddas	Tynnu'r holl arwyddion anghywir neu amhriodol oddi ar y ward. Sefydlu Grŵp Prosiect Lleol er mwyn adolygu'r arwyddion cywir ar gyfer ardaloedd wardiau clinigol a chleifion mewnol yn barhaus.	Rheolwr Canolfan Adnoddau Ysbyty De Sir Benfro Rheolwr Canolfan Adnoddau Ysbyty De Sir Benfro	Cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2019 Hydref 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses gadarn ar waith ar gyfer y system clychau galw ar y ward i gynnal diogelwch y cleifion.	5.1 Mynediad amserol	Adolygu'r system clychau galw ar y ward. Rhoi gwybod i'r staff ar y ward y dylid newid y system clychau galw i fodd Dydd rhwng 7am ac 11pm. Llunio posteri i atgoffa'r staff am hyn a'u rhannu yn ystod cyfarfod tîm yn ogystal â'u harddangos wrth ymyl y system clychau galw.	Rheolwr y Ward Rheolwr Canolfan Adnoddau Ysbyty De Sir Benfro Rheolwr y Ward	Cwblhawyd ym mis Mehefin 2019 Cwblhawyd ym mis Mai 2019 Awst 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i rannu adborth â chleifion ac ymwelwyr ar y ward.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Prynu byrddau gwybodaeth, sy'n cynnwys data ansawdd allweddol ar niwed pwysau, heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd	Nyrs Datblygu Proffesiynol ac Ymarfer	Hydref 2018

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol: - Bod y grisiau'n glir o unrhyw rwystrau bob amser - Bod cyn lleied o annibendod â phosibl ar y ward, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur er mwyn hybu amgylchedd diogel i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr - Bod yr holl ddeunyddiau peryglus yn cael eu storio'n ddiogel	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Rhoi gwybod i'r staff am bwysigrwydd cadw ardaloedd clinigol ac ardaloedd cleifion, gan gynnwys y grisiau a'r coridorau, yn glir o rwystrau bob amser. Eitem ar agenda'r cyfarfod tîm.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd ym mis Mai 2019
		Rhoi gwybod i staff clinigol a chyfleusterau gwesty ar y ward y dylid storio'r holl ddeunyddiau peryglus yn ddiogel ac y dylid cadw'r cypyrddau wedi'u cloi bob amser.	Rheolwr y Ward	Awst 2019
		Rhoi archwiliadau amgylcheddol, atal a rheoli heintiau a 'gwiriadau iechyd' ar waith ar y ward. Arddangos hysbysiadau diogelwch perthnasol.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol a Nyrs Ardal	Cwblhawyd ym mis Mai 2019
		Symud yr holl gyfarpar sydd wedi'u	Rheolwr y Ward a Phennaeth Cyfleusterau Gwesty	Cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2019
				Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Bod eitemau newydd yn cael eu prynu yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi ac sy'n aros i gael eu trwsio er mwyn sicrhau bod digon o gyfarpar ar gael i ddarparu parhad gofal i'r cleifion.		difrodi oddi ar y ward.	Rheolwr Canolfan Adnoddau Ysbyty De Sir Benfro	ym mis Gorffennaf 2019
		Prynu cyfarpar newydd yn lle rhai sydd wedi treulio, torri neu wedi'u difrodi.	Rheolwr y Ganolfan Adnoddau	Cwblhawyd ym mis Mai 2019
		Rhoi hapwiriadau ar waith, gan gynnwys archwilio cyfarpar.	Rheolwr y Ward	Awst 2019 Cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cydymffurfio â chynlluniau gofal cleifion unigol,	2.2 Atal briwiau pwysau a niwed i	Staff y ward i ddefnyddio cynlluniau gofal unigol.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol	Cwblhawyd ym mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yn enwedig mewn perthynas â newid safle cleifion, a bod hyn yn cael ei gofnodi'n briodol.	feinweoedd	Rhoi gwybod i'r staff am bwysigrwydd cadw cofnodion cyfredol a chlir, gan gynnwys gwybodaeth am newid safle cleifion. Archwilio'r cofnodion bob deufis er mwyn adolygu cydymffurfiaeth â chynlluniau gofal unigol. Darparu hyfforddiant ar fwndeli gofal croen a rowndiau bwriadol i'r staff a nodwyd. Darparu hyfforddiant ar gwblhau cynlluniau gofal i'r staff a nodwyd.	Rheolwr y Ward a Nyrs Ardal Rheolwr y Ward/Nyrs Datblygu Ymarfer Nyrs Datblygu Proffesiynol ac Ymarfer Nyrs Datblygu Ymarfer Rheolwr y Ward/Nyrs	Mehefin 2019 Cwblhawyd ym mis Mehefin 2019 Dechreuwyd ym mis Mehefin 2018 Cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2019 Medi 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Enwebu staff i fynd i Sesiynau Hyfforddi ar Gadw Cofnodion.	Datblygu Proffesiynol Gymunedol	Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod byrddau cipolwg ar statws cleifion yn cael eu cynnal a'u bod yn gyfredol, er mwyn sicrhau bod y staff yn hollol ymwybodol o statws claf.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Diweddaru'r Byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion yn unol â gwybodaeth berthnasol a chyfredol am gleifion. Cynnal hapwiriadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.	Rheolwr y Ward Rheolwr y ward	Cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2019 Medi 2019
Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y nodiadau a wneir yng nghofnodion y cleifion yn ddarllenadwy a'u bod yn cael eu cynnal yn unol	3.5 Cadw cofnodion	Archwilio'r cofnodion bob deufis.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol	Awst 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.		Rhoi adborth ar ganfyddiadau'r archwiliad o gofnodion mewn cyfarfodydd tîm.	Rheolwr Canolfan Adnoddau Ysbyty De Sir Benfro	Awst 2019
		Darparu stamp i'r staff meddygol sy'n dangos eu henw a'u rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol i'w ddefnyddio ar gofnodion cleifion.	Rheolwr Ardal	Awst 2019
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cofnodion a gedwir ar y safle, yn benodol gweithgarwch archwilio, yn drylwyr ac yn gyfredol.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Cadw cofnodion ar y ward o'r holl weithgarwch archwilio a gwblhawyd. Cadw hapwiriadau o gofnodion ar y ward er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn gyfredol ac yn hygyrch.	Nyrs Ardal Uwch-nyrs Ardal	Cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2019 Awst 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud pob ymdrech i recriwtio ar gyfer swydd wag rheolwr y ward cyn gynted â phosibl.	7.1 Y Gweithlu	Penodi Prif Nyrs Band 7 Interim lawn amser hyd nes y caiff unigolyn addas ei recriwtio.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol	Cwblhawyd ym mis Gorffennaf

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				2019

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Ceri Griffiths

Teitl swydd: Pennaeth Nyrsio Cymunedol

Dyddiad: 29 Gorffennaf 2019